

Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Beth ydyn nhw a sut byddan nhw'n gweithio?

Beth yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru?

Y gweithdrefnau diogelu cynhwysol cyntaf ar gyfer Cymru gyfan yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Maent yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd yn cael profiad o gamdriniaeth, esgeulustod neu ffurfiau eraill o niwed, neu'n wynebu risg o hynny.

I bwy maen nhw'n berthnasol?

Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn llywio arferion diogelu ar gyfer pawb sy'n cael eu cyflogi yn y sector statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) a'r sector preifat ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu, cyfiawnder a gwasanaethau eraill.

Maent yn berthnasol i bob ymarferydd a rheolwr sy'n gweithio yng Nghymru, boed yn gyflogedig gan asiantaeth ddatganoledig neu un heb ei datganoli.

Pam maen nhw wedi cael eu datblygu?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod y gred a rennir gan lawer o ymarferwyr, rheolwyr a gwneuthurwyr polisi bod angen systemau a phrosesau cyffredin i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod.

Nod Gweithdrefnau Diogelu Cymru yw troi deddfwriaeth, megis Deddf 2014, a dyletswyddau sy'n codi ohoni, yn ymarfer.

Nod y gweithdrefnau yn y pendraw yw sicrhau cysondeb o ran ymarfer ac o ran cymhwyso deddfwriaeth ledled Cymru.

Dyma pam mae'r gweithdrefnau'n cynnwys 'arwyddion arfer' sy'n rhoi canllawiau ynghylch sut i gwblhau tasgau unigol. Mae'r arwyddion arfer hyn yn cynrychioli'r datblygiadau ymchwil ac ymarfer diweddaraf.

[darllen rhestr gyflawn o amcanion ac egwyddorion Gweithdrefnau Diogelu Cymru]

Sut cawson nhw eu cynhyrchu?

Datblygwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru gan dîm project dan arweiniad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg.

Cadeirydd y tîm project oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg, ac roedd yr Athro Emeritws Jan Horwath yn rhan o'r tîm. Cynrychiolwyd pob un o chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cymru hefyd.

Datblygwyd y gweithdrefnau mewn proses saith cam, gydag asiantaethau o bob rhan o Gymru'n cael cyfle i fod ynghlwm wrth y gwaith a chyfrannu o'u profiad ymarferol ac arbenigedd ymchwil. Gwahoddwyd ymarferwyr unigol wedyn i gyfrannu drwy grwpiau datblygu penodol.

Boed yn diogelu oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu'n amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a'u niweidio, mae'r gweithdrefnau yn seiliedig ar yr un egwyddorion ag sydd wrth wraidd Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pryd byddan nhw'n dod i rym?

Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cyhoeddi ar 11 Tachwedd 2019 a byddant ar gael i bawb eu gweld drwy'r wefan swyddogol neu drwy lawrlwytho app symudol Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Bydd angen i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedyn fabwysiadu'r gweithdrefnau'n ffurfiol. Ar yr adeg honno byddant wedi eu hardystio ymhob rhanbarth.

Mater i bob bwrdd yn unigol fydd trefnu amserlen ar gyfer mabwysiadu'r gweithdrefnau, ond disgwylir y bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu hystyried gan bob bwrdd cyn diwedd Ionawr 2020.

Bydd Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn darparu manylion i bob uned fusnes ynghylch y polisiau lleol (rhanbarthol) y bydd eu hangen i gefnogi'r gweithdrefnau cyn y dyddiad lansio.

Disgwylir y bydd y gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu a'u gweithredu'n llawn ymhob rhanbarth yng Nghymru erbyn Ebrill 2020.